

STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER CYNGOR CYMUNED LLANUWCHLLYN

1 Cyffredinol

1.1 Paratwir y Strategaeth Flynyddol hon yn unol a chanllawiau statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhyrchir y Strategaeth hon yn atodol at unrhyw Ddatganiad Polisi Rheoli Cyllid.

1.2 Caiff yr holl fantolenni banc, asedau ariannol, benthyciadau a threfniadau arian a chredyd eu diffinio fel rhan o weithgareddau rheoli Cyllid y Cyngor. Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon yn canolbwyntio ar adnoddau gwagedd dros dro y Cyngor (neu asedau ariannol eraill y mae'n meddu arnynt) a'r achosion lle y mae'n buddsoddi'r adnoddau hyn.

1.3 Ceisia'r Cyngor sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei holl fuddsoddiadau yn hytrach na'u maint. Wrth ddrfftio'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon, mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodoli ar gyfer:

- nodi, trin a rheoli risgiau yn y gweithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid y mae'n ymgymeryd â hwy,
- trefniadau cyllidebu, cyfrifo, ac archwilio,
- ei ofynion rheoli arian a llif arian,
- gwahanu cyfrifoldebau, trefniadau sefydliadol, dogfennau digonol a phennu swyddog sy'n gyfrifol am weithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid,
- rheolaeth gorfforaethol,
- gweithdrefnau i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall wynebu ymgais i'w gynnwys mewn gweithrediad sy'n cynnwys gwyngalchu arian.
- Adolygu'n rheolaidd y trefniant bancio er mwyn sicrhau y cyfradd llog mwyaf manteisiol

1.4 Caiff holl fuddsoddiadau'r Cyngor eu gwneud a'u had-dalu mewn sterling.

2 SYMIAU I'W BUDDSODDI:

2.1 Gan adolygu y gyllideb, mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn nodi derbyn y praesept mewn dau daliad tros gyfnod y flwyddyn.

2.2 Fe fydd y cyntaf yn digwydd yn ystod Ebrill a'r olaf yn ystod Medi o'r un flwyddyn. Os fydd unrhyw newid i'r drefn yma, disgwylir i Cyngor Gwynedd rhoi gwybod mewn da bryd i'r Cyngor er mwyn iddynt adolygu y llif arian.

2.3 Yn ystod y flwyddyn, cedwir arian mewn cyfrif cadw gyda llog.

2.4 Yn achlysurol os oes swm o arian ble na ddefnyddir hwy gan y Cyngor Cymuned yn unionsyth, fe roddir am dymor penodedig mewn cyfrif bond, gyda banc y Cyngor er mwyn ennill mwy o arian llog. Unwaith fydd yr arian yma yn

rhydd o rhwymedigaethau amser, fe fydd ad-dalaid yn ôl i'r cyfrif cadw.

2.5 Cedwir symiau sydd ei angen yn wythnosol yn y cyfrif Cyfredol gan geisio a bob achlysur minimeiddio y swm sydd yma'n bodoli.

2.6 Mae'n reol gan Gyngor Cymuned Llanuwchllyn i gadw swm i'w bennu yn y Cyfarfod Blynyddol fel arian wrth gefn.

3 RHESTR O FUDDSODDIADAU

3.1 Bydd y Cyngor yn ymgymeryd â'r categorïau canlynol o fuddsoddiad ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol.

3.2 Adneuo arian parod mewn cyfrifon Cyfredol hyd at uchafswm o £10,000.

3.3 Adneuo arian yn y cyfrif cadw, arian heb ei glustnodi hyd at uchafswm o £20,000.

3.4 Adneuo arian mewn cyfrifon sy'n ennill llog am 3 mis ym Manc y Cyngor hyd at uchafswm o £30,000.

3.5 Adneuo unrhyw arian arall mewn cyfrifon sy'n ennill llog am 6 mis yn Manc y Cyngor.

4 BUDDSODDIADAU ARBENNIG

4.1 Os caiff unrhyw offer buddsoddi newydd (ar wahan i'r rhai a gymeradywyd yn y rhestr uchod) eu cynnig yn ystod blwyddyn ariannol, fe fydd rhaid i fuddsoddiad o'r fath gael ei gael ei gymeradwyo gan bwyllgor cyllid Gyngor Cymuned Llanuwchllyn drwy hawl dirprwyedig penodedig.

5 TREFN ADOLYGU Y STRATEGAETH BUDDSODDI

5.1 Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid ar ol y Cyfarfod Blynyddol, bydd y strategaeth yn cael ei adolygu am ei addasrwydd a sefydlu strategaeth am y flwyddyn i ddod.